# COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU / GROWING MID WALES BOARD A GYNHALIWYD DROS ZOOM DDYDD MERCHER, 15 RHAGFYR 2021

YN BRESENNOL

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion:**

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion a’r Aelod Cabinet ar gyfer Polisi, Perfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd **(EAG) (Cadeirydd)**
Y Cynghorydd Dafydd Edwards: Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, ynghyd â Thai **(DE)**
Y Cynghorydd Catrin Miles: Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Dysgu a Dysgu Gydol Oes **(CM)**
Y Cynghorydd Rhodri Evans: Aelod Cabinet ar gyfer yr Economi ac Adfywio **(RE)**
Y Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu’r Cyhoedd **(GL)**

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Powys:**

Y Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys **(RH)**
Y Cynghorydd Myfanwy Alexander, Deiliad Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion a’r Gymraeg **(MA)**
Y Cynghorydd Aled Davies, Deiliad Portffolio Cyllid a Thrafnidiaeth **(AD)**
Y Cynghorydd Phyl Davies, Deiliad Portffolio Addysg ac Eiddo **(PD)**

**Swyddogion:**

Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Strategol Bargen Twf Canolbarth Cymru **(CJE)**
Aggie Caesar-Homden, Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol **(ACH)**
Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol Cyllid Craidd, Cyngor Sir Ceredigion **(JD)**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd **(LE)**
Paul Griffiths, Swyddog Cynghori **(PG)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**
Elin Prysor, Cyngor Sir Ceredigion **(EP)**
Ffion Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion **(FL)**
Diane Reynolds, Pennaeth yr Economi a Gwasanaethau Digidol, Cyngor Sir Powys **(DR)**

**Swyddfa Rheoli Portffolio Tyfu Canolbarth Cymru**

Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau **(CM)**

| 1. | CROESO AC YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Heulwen Hulme, Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys a Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol dros yr Economi a’r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Myfanwy Alexander a oedd yn mynychu yn lle’r Cynghorydd Iain McIntosh a oedd wedi ymddiswyddo o Gabinet Cyngor Sir Powys.

| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL |
|---|---|

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol/rhagfarnus.

| 3. | COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD DIWETHAF 11/11/21 |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2021 yn gofnod cywir.

Byddai diweddariad ar ffosffadau yn cael ei ychwanegu at agenda cyfarfod a gynhelir yn y dyfodol.

| 4. | BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU: DIWEDDARIAD CYNNYDD |
|---|---|

Dywedwyd wrth y Bwrdd ei bod yn annhebygol y byddai Cytundeb Terfynol y Fargen Twf yn cael ei lofnodi cyn y Nadolig, am nad oedd Gweinidogion ar gael. Byddai'r swyddogion yn parhau i bwyso am gael llofnodi'r cytundeb yn ffurfiol, ond mae'n bosibl y byddai'n rhaid aros tan bythefnos cyntaf mis Ionawr cyn y byddai Gweinidogion ar gael a chyn y byddai Cytundeb Terfynol y Fargen Twf yn cael ei lofnodi. Roedd y ddau Arweinydd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fynegi eu siom.

Dywedodd CJE fod y prosesau technegol yn mynd rhagddynt yn foddhaol a bod y dogfennau wedi'u paratoi i'r safon ofynnol. Roedd y Trysorlys wedi gofyn am nifer fach o newidiadau. Cynhaliwyd cyfarfod o'r cyd-fwrdd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr er mwyn adolygu Cytundeb Terfynol y Fargen Twf, ac er na chafwyd unrhyw adborth ffurfiol, deallwyd bod y cyfarfod wedi mynd yn dda ac nad oedd unrhyw rwystrau o ran cytuno ar y Cytundeb Terfynol.

Dywedodd CM fod yr adolygiad sicrwydd nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2022. Byddai Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn adolygu prosesau a strwythurau.

Dywedodd CM fod Adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu o Achos Busnes y Portffolio a dogfennau ategol wedi'i gwblhau a bod adroddiad terfynol wedi'i gyflwyno i'r Uwch-swyddogion Cyfrifol. At ei gilydd, roedd yr adroddiad yn gadarnhaol iawn. Dim ond 10 o argymhellion a wnaed, a'u bwriad oedd cryfhau Achos Busnes y Portffolio, cynorthwyo i liniaru risgiau, a gwella'r tebygolrwydd o gyflawni'n llwyddiannus. Roedd yr Uwch-swyddogion Cyfrifol wedi llunio cynllun gweithredu ac wedi cytuno arno, er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith. Roedd hwnnw wedi'i rannu â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac roedd Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn disgwyl am adborth ynghylch pa newidiadau yr oedd angen eu cynnwys cyn arwyddo'r Cytundeb Terfynol, a pha rai y gellid eu gwneud wedi hynny.

Roedd Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn mapio'r camau gweithredu a'r camau allweddol er mwyn symud o Gytundeb Terfynol y Fargen Twf i gyflawni'r Fargen. Roedd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu ar gyfer y Rhaglen Ddigidol, a

fyddai'n egluro'r camau ar gyfer sefydlu bwrdd rhaglen a chyflwyno achos busnes y rhaglen i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn y flwyddyn newydd.

Roedd y grŵp llywio wedi gwneud gwaith yn ddiweddar ar sefydlu a phrofi methodoleg asesu a blaenoriaethu ar gyfer tua 80 o brosiectau sydd ar y rhestr hir.

Rhaglen Safleoedd ac Eiddo: Drwy'r gwaith cychwynnol, mae deuddeg o safleoedd strategol posibl wedi'u nodi ar gyfer y Canolbarth. Roedd cynllun yn cael ei lunio i adolygu'r safleoedd allweddol hyn – y gallu i gyflawni, cyfyngiadau a thrafodaethau manylach â pherchnogion tir er mwyn penderfynu ar y blaenoriaethau cychwynnol o safbwynt ymyrraeth y Fargen Twf.

<u>Datblygu prosiectau</u>

Roedd y rhan fwyaf o brosiectau wedi cyflwyno ffurflen diweddariad ynghylch cynnydd, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu. Y cam nesaf fyddai i brosiectau gyflwyno Achos Amlinellol Strategol wedi'i ddiwygio er mwyn ei adolygu'n ffurfiol.

Roedd y broses ar gyfer cymeradwyo a rhoi sicrwydd yn cael ei mapio a byddai'n cael ei thrafod gan Grŵp Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru yn y lle cyntaf, cyn i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gymeradwyo'r dull gweithredu.

| 5. | LLYWODRAETHU |
|---|---|

Bu'r Bwrdd yn ystyried trydydd iteriad y Cytundeb Rhwng Awdurdodau a oedd yn egluro'r egwyddor ar gyfer llywodraethu a rheoli Bargen Twf Canolbarth Cymru. Y bwriad oedd i'r trydydd cytundeb hwnnw ddod i rym unwaith y byddai Cytundeb Terfynol y Fargen Twf wedi'i lofnodi gan y ddau Gyngor, a byddai'n parhau mewn grym drwy gydol cyfnod y Fargen Twf.

Byddai Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn parhau'n gyd-bwyllgor gweithredol gyda'r aelodaeth yn cynnwys 10 cynrychiolydd sy'n aelodau etholedig (5 o bob Cyngor). Byddai holl banelau cynghori Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn cael eu hailsefydlu mewn rôl ymgynghorol i ddarparu cyngor i'r Bwrdd.

Roedd y Grŵp Strategaeth Economaidd blaenorol wedi'i ailgorffori yn Grŵp Cynghori Economaidd gyda chylch gorchwyl newydd. Nid oedd gan y Cadeirydd hawl mwyach i bleidleisio ar faterion y Bwrdd.

Roedd cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn parhau heb ei newid i raddau helaeth ers yr ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau.

Roedd cylch gorchwyl Grŵp Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru, a sefydlwyd dan y Cytundeb cyntaf Rhwng Awdurdodau i gydlynu cyngor proffesiynol a gwaith rheoli gan swyddogion i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, wedi esblygu er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni'r Fargen. Roedd ei aelodau'n cynnwys uwch-swyddogion o'r ddau Gyngor, gyda sylwedyddion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Mae rôl a swyddogaeth Swyddfa Rheoli'r Portffolio yng nghyd-destun Bargen Twf Canolbarth Cymru bellach wedi'u diffinio yn y trydydd Cytundeb Rhwng Awdurdodau. Mae'r swyddfa yn darparu cymorth a chyngor proffesiynol i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ynghylch cyflawni Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Mae'r swyddogaethau gweinyddol wedi'u rhannu fel a ganlyn:

| **Swyddogaeth weinyddol** | **Cyfrifoldeb** |
|---|---|
| Adnoddau Dynol | Ceredigion |
| Clerc i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru | Bydd y ddau Gyngor yn penodi unigolyn i fod yn Glerc, a fydd yn gyfrifol am gynorthwyo am yn ail gyda holl ofynion gweinyddol Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn unol â Chymal **Error! Reference source not found.** (Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru) |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | Powys |
| Swyddog Monitro | Powys |
| Trysorydd a Swyddog Adran 151 | Ceredigion fel y Corff Atebol |
| Cyfathrebu | Ceredigion, gyda chymorth Swyddfa Rheoli'r Portffolio |
| Caffael | Powys |
| Cyfieithu | Y Cyngor sy'n cynnal y cyfarfod o Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru |
| TG | Ceredigion |
| Archwilio Mewnol | Powys |
| Gwasanaethau Democrataidd | Powys |
| Ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Cynghori Economaidd | Powys, gyda chymorth Swyddfa Rheoli'r Portffolio |

Roedd y Cynllun Dirprwyo yn Atodlen 1 y trydydd Cytundeb Rhwng Awdurdodau hefyd yn egluro pa faterion oedd yn gyfrifoldeb i'r Grŵp Rheoli, pa faterion oedd yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd a pha faterion oedd wedi'u cadw'n ôl ar gyfer y Cynghorau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodi cwmpas y trydydd Cytundeb Rhwng Awdurdodau a materion allweddol a oedd yn gysylltiedig ag ef, a fydd yn berthnasol i gyfnod cyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru.**

2. **Argymell i Gabinet y ddau Awdurdod bod y trydydd Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn cael ei gytuno, fel y mae yn Atodiad 1 yr Adroddiad.**

| 6. | CYLLID |
|---|---|

6.1. Cymeradwyo datganiad blynyddol ar gyfer 2020/21

Dywedodd Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol Cyllid Craidd, Cyngor Sir Ceredigion, fod Swyddog Ariannol Cyfrifol Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru wedi ardystio bod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r datganiad yn berthnasol iddi, ac yn rhoi darlun cywir a theg o incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno.

Dywedodd hefyd fod Archwilio Cymru wedi archwilio'r Datganiad Blynyddol a bod ei adroddiad i'w weld yn Atodiad 1 yr adroddiad. Mae ei dystysgrif archwilio a'i farn archwilio yn datgan mai bwriad y Swyddfa Archwilio yw rhoi tystysgrif ac adroddiad diamod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ac nad oes unrhyw faterion y mae'r Swyddfa Archwilio yn dymuno tynnu sylw atynt yng nghyswllt y farn.

**PENDERFYNWYD bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.**

6.2. Cadarnhau'r gyllideb refeniw ar gyfer 2021/22 ac egluro egwyddorion y gyllideb sylfaenol ar gyfer oes Bargen Twf Canolbarth Cymru

**PENDERFYNWYD bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2021/2022, sef £216,038, i'w hariannu'n gyfartal gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.**

| 7. | UNRHYW FATER ARALL |
|---|---|

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hadroddiadau.

| 8. | DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF |
|---|---|

11 Mawrth 2022 – Rhithiol
21 Mehefin 2022 – Rhithiol
26 Medi 2022 – Rhithiol
12 Rhagfyr 2022 – Rhithiol

**Y Cynghorydd Sir Ellen ap Gwynn**
**Cadeirydd**